O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2010 Rhif 1647 (Cy. 155)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Rhagnodi Annibynnol) (Cymru) 2010

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Reoliadau canlynol :

**1.** Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992;

**2.** Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004; a

**3.** Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007,

y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "y Rheoliadau perthnasol".

Mae'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn y Rheoliadau hyn yn egluro bod y term "nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol" ("*independent nurse prescriber*"), pan fo'n cael ei ddefnyddio, i'w ddehongli at ddibenion y Rheoliadau perthnasol fel cyfeiriad at y term "nyrs-ymarferydd cymunedol sy'n rhagnodi" fel y diffinnir "*community practitioner nurse prescriber*" yng Ngorchymyn Meddyginiaethau drwy Bresgripsiwn yn Unig (I'w Defnyddio gan Bobl) 1997 ("y Gorchymyn MBU") a'r Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth (a gedwir yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001).

Maer' Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau yn y Rheoliadau perthnasol i'r diffiniad o "nyrs-ragnodydd annibynnol" (*"nurse independent prescriber"*) a "rhagnodydd atodol" ("*supplementary prescriber"*).

Mae’r Rheoliadau hyn yn diweddaru hefyd gyfeiriadau yn y Rheoliadau perthnasol at y diffiniad o “cofrestr berthnasol” (“*relevant register*”).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2010 Rhif 1647 (Cy. 155)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Rhagnodi Annibynnol) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Mehefin 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *23 Mehefin 2010* |
| *Yn dod i rym* | *19 Gorffennaf 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 47, 80, 83, 86, 121 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Rhagnodi Annibynnol) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 19 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru..

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**2**) wedi'u diwygio'n unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) —

(a) yn lle'r diffiniad o “independent nurse prescriber” rhodder —

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1992/662. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2003/2624 (Cy. 252), O.S. 2007/205 (Cy.19) ac O.S. 2007/289.

““independent nurse prescriber” means a person —

(a) who is registered in the Nursing and Midwifery Register, and

(b) against whose name in that register is recorded an annotation or entry signifying that he or she is qualified to order drugs, medicines and appliances as a community practitioner nurse prescriber;”;

(b) yn lle'r diffiniad o “nurse independent prescriber” rhodder —

““nurse independent prescriber” means a person —

(a) who is registered in the Nursing and Midwifery Register, and

(b) against whose name in that register is recorded an annotation or entry signifying that he or she is qualified to order drugs, medicines and appliances as:

(i) a nurse independent prescriber, or

(ii) a nurse independent/ supplementary prescriber, and

(c) who, in respect of a person practising in Wales on or after 19 July 2010, has passed an accredited course to practise as a nurse independent prescriber;”; a

(c) yn lle'r diffiniad o “supplementary prescriber” rhodder —

““supplementary prescriber” means a person —

(a) whose name is registered in —

(i) the Nursing and Midwifery Register,

(ii) Part 1 of the register maintained under article 10(1) of the Pharmacists and Pharmacy Technicians Order 2007(**1**),

(iii) the register maintained in pursuance of articles 6 and 9 of the Pharmacy (Northern Ireland) Order 1976(**2**),

(iv) the part of the register maintained by the Health Professions Council in pursuance of article 5 of the Health Professions Order 2001(**3**) relating to —

(**1**) O.S. 2007/289
(**2**) O.S. 1976/1213 (N.I. 22).
(**3**) O.S. 2002/254.

(aa) chiropodists and podiatrists;

(bb) physiotherapists; or

(cc) radiographers: diagnostic or therapeutic, or

(v) the register of optometrists maintained by the General Optical Council in pursuance of section 7 of the Opticians Act 1989(**1**); and

(b) against whose name in the relevant register is recorded an annotation or entry signifying that he or she is qualified to order drugs, medicines and appliances as a supplementary prescriber save, in the case of the Nursing and Midwifery Register, where the annotation or entry signifies qualification as a nurse independent/supplementary prescriber;”.

(3) Ar ôl rheoliad 2(1C), mewnosoder y paragraff canlynol —

“(1D) Where the term “community practitioner nurse prescriber” appears in the POM Order or the Nursing and Midwifery Register it is to be construed for the purposes of these Regulations as a reference to an “independent nurse prescriber.”.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**2**) wedi'u diwygio'n unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) —

(a) yn lle'r diffiniad o “independent nurse prescriber” rhodder —

““independent nurse prescriber” means a person —

(a) who is either engaged or employed by the contractor or is a party to the contract,

(b) who is registered in the Nursing and Midwifery Register, and

(c) against whose name in that register is recorded an annotation or entry

(**1**) 1989 p. 44

(**2**) O.S. 2004/478 (Cy.48). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/358 (Cy. 46), O.S. 2007/205 (Cy.19) ac O.S. 2007/289.

signifying that he or she is qualified to order drugs, medicines and appliances as a community practitioner nurse prescriber;”;

(b) yn lle'r diffiniad o “nurse independent prescriber” rhodder —

““nurse independent prescriber” means a person —

(a) who is either engaged or employed by the contractor or is a party to the contract,

(b) whose name is registered in the Nursing and Midwifery Register, and

(c) against whose name in that register is recorded an annotation or entry signifying that he or she is qualified to order drugs, medicines and appliances as —

(i) a nurse independent prescriber, or

(ii) a nurse independent/ supplementary prescriber, and

(d) who, in respect of a person practising in Wales on or after 19 July 2010, has passed an accredited course to practise as a nurse independent prescriber;”; a

(c) yn y diffiniad o “supplementary prescriber”, ym mharagraff (c), ar ôl y geiriau “as a supplementary prescriber” ychwaneger, “save in the case of the Nursing and Midwifery Register, where the annotation signifies qualification as a nurse independent/supplementary prescriber”.

(3) Ar ôl rheoliad 2(2) ychwaneger y paragraff canlynol —

“(3) Where the term “community practitioner nurse prescriber” appears in the POM Order or the Nursing and Midwifery Register it is to be construed for the purposes of these Regulations as a reference to an “independent nurse prescriber”.”.

(4) Ym mharagraff 49(3) o Atodlen 6 hepgorer y geiriau “whose name is registered” hyd at y diwedd.

(5) Ym mharagraff 49(4) o Atodlen 6 hepgorer y geiriau o “whose name is registered” hyd at “as a supplementary prescriber” yn y ddau le y maent yn ymddangos.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am

Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio’n unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) —

(a) yn lle'r diffiniad o “nyrs sy’n rhagnodi’n annibynnol” (“*independent nurse prescriber*”), rhodder —

““ystyr “nyrs sy’n rhagnodi’n annibynnol” (“*independent nurse prescriber*”) yw person —

(a) sydd wedi'i gofrestru yn y Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn y gofrestr honno nodyn neu gofnod yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel nyrs-ymarferydd cymunedol sy'n rhagnodi;”;

(b) yn lle'r diffiniad o “nyrs-ragnodydd annibynnol” (“*nurse independent prescriber*”) rhodder y canlynol —

““ystyr “nyrs-ragnodydd annibynnol” (“*nurse independent prescriber*”) yw person —

(a) y mae ei enw wedi'i gofrestru yn y Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn y gofrestr honno nodyn neu gofnod yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel —

(i) nyrs-ragnodydd annibynnol, neu

(ii) nyrs-ragnodydd annibynnol/ atodol, ac

(c) sydd, o ran y person sy'n ymarfer yng Nghymru ar 19 Gorffennaf 2010 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, wedi llwyddo mewn cwrs a achredwyd ar gyfer ymarfer fel nyrs-ragnodydd annibynnol;”;

(c) yn y diffiniad o “cofrestr berthnasol” (“*relevant register*”), yn lle paragraff (b) rhodder y canlynol —

“(b) mewn perthynas â fferyllydd, Rhan 1 o'r gofrestr a gedwir o dan erthygl 10(1) o Orchymyn Fferyllwyr a Thechnegwyr Fferyllol 2007 neu'r gofrestr a gedwir yn unol ag erthyglau

(**1**) O.S. 2007/121 (Cy.11).

6 a 9 o Orchymyn Fferylliaeth (Gogledd Iwerddon) 1976;”;

(ch) yn y diffiniad o “rhagnodydd atodol” (“*supplementary prescriber*”) —

(i) yn lle paragraff (a)(ii), rhodder y canlynol —

“Rhan 1 o'r gofrestr a gedwir o dan erthygl 10(1) o Orchymyn Fferyllwyr a Thechnegwyr Fferyllol 2007;” a

(ii) ym mharagraff (b) ar ôl y geiriau “fel rhagnodydd atodol”, ychwaneger y geiriau “, ac eithrio yn achos y Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth, lle mae'r nodyn neu’r cofnod yn dynodi cymhwyster fel nyrs-ragnodydd annibynnol/atodol;”; a

(d) yn y safle priodol mewnosoder y diffiniad canlynol —

““ystr “y Gorchymyn MBU” (*“the POM Order”*) yw Gorchymyn Meddiginiaethau drwy Bresgripsiwn yn Unig (I’w Defnyddio gan Bobl) 1997(**1**);”.

(3) Ar ôl paragraff (2) o reoliad 2, mewnosoder y paragraff a ganlyn —

“(2A) Pan fo'r term “community practitioner nurse prescriber” yn ymddangos yn y Gorchymyn MBU neu'r Gofrestr Nyrsio a Bydwreigiaeth, mae i'w ddehongli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at “nyrs-ragnodydd annibynnol”.”.

**Arbed**

**5.** Bydd unrhyw berson sydd wedi cymhwyso i ymarfer yng Nghymru fel nyrs-ragnodydd annibynnol cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym yn parhau i fod yn gymwys i wneud hynny er gwaethaf y newid i’r diffiniad o nyrs-ragnodydd annibynnol a fewnosodir yn —

(a) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 gan reoliad 2(2)(b);

(b) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 gan reoliad 3(2)(b); ac

(**1**) O.S. 1997/1830

(c) Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007 gan reoliad 4(2)(b).

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

21 Mehefin 2010